

Cwestiwn			Manylion marcio	Marciau Ar Gael
6	(a)		[Mesur] Rhuddiad (derbyniwch Doppler) golau sêr / galaethau ond ddim ar gyfer planedau	1
			Y pellaf yw'r seren y mwyaf o ruddiad / cyflymder (neu mae'r rhuddiad mewn cyfrannedd â phellter y galaeth)	1
			Cyson â dechrau o ffrwydrad e.e. yr ehangiad yn gyson â'r Glec Fawr (neu cyson â mater yn dechrau o un pwynt)	1
	(b)		Dydy buaneddau sy'n agos at fuanedd golau <u>ddim</u> yn fwy na buanedd golau derbyniwch ffracsiynau mawr o fuanedd golau yw cyflymderau	1
			Peidiwch â derbyn ar neu'n fwy na buanedd golau	
	(c)		Egluro cynnwys presennol y bydysawd yn glir h.y. baryonau (a leptonau) nid gwrthfaryonau (a gwrth-leptonau)	1
			Dadl dros dorri cymesuredd (Torri Cadwraeth rhif Baryon ddim yn ddigon) - e.e. rhaid bod gormodedd bach o faryonau ayb.	1
	(ch)		Màs llai yn gysylltiedig â llai o egni	1
			Llai o egni yn gysylltiedig â thymheredd is ac amser diweddarach	1
			Cynhyrchu masau llai ar dymheredd is – 1 marc	
	(d)		Ymasiad [niwclysau] wedi'i nodi	1
			Oherwydd T (neu gyflymder neu egnïon) uchel [tua 10^{-6} (i 3 mun) ar ôl y Glec Fawr]	1
	(dd)		Roedd y bydysawd yn oerach neu mae egni is gan electronau neu brotonau	1
			Electronau'n cyfuno â phrotonau (derbyniwch niwclysau)	1
			Egni ffotonau'n rhy isel i atomau/electronau ei amsugno Derbyniwch pelydriad e-m ddim yn cael ei amsugno mwyach gan [electronau/ionau] neu belydriad e-m ddim yn cael ei wasgaru mwyach	1

Cwestiwn			Manylion marcio	Marciau Ar Gael
	(e)		Amnewid $v_{\text{dianc}} = H_0 R$ (neu gam algebraidd cywerth)	1
			Amnewid $M = \frac{4}{3}\pi R^3 \rho$ (neu gam algebraidd cywerth)	1
			Algebra clir yn arwain at $\rho_c = \frac{3H_0^2}{8\pi G}$	1
	(f)		Amnewid H_0 a G yn gywir	1
			$\frac{9.21 \times 10^{-27}}{1.66 \times 10^{-27}}$ i'w weld neu 5.55 i'w weld	1
	(ff)		$\lambda_{\text{macs}} = 0.105 \text{ cm}$	1
			$T = \frac{2.90 \times 10^{-3}}{0.00105} = 2.76 \text{ K}$	1
			Cyfanswm Cwestiwn 6	[20]